**Julie James AC/AM**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Leader of the House and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-(P) /JJ/4715/17

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

24 Ionawr 2018

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 12 Rhagfyr 2017, ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i hawliau dynol yng Nghymru.

Rwy'n croesawu'r Ymchwiliad a phenderfyniad y Pwyllgor i gyfyngu ei sylw i effaith Brexit ar hawliau dynol yng Nghymru. Mewn cyfnod sy'n dal yn ansicr o ran hawliau dynol yn y DU, mae'n hollbwysig ein bod yn parhau ar ein gwyliadwriaeth er mwyn gofalu nad yw safonau a gweithdrefnau sy'n diogelu pobl Cymru yn cael eu gwanhau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir na ddylai'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE arwain mewn unrhyw ffordd at lastwreiddio gweithdrefnau sy'n diogelu hawliau dynol. Ein safbwynt cyson yw y dylai Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) warchod y Siarter Hawliau Sylfaenol fel rhan o'r corff o ddeddfwriaeth sydd wedi deillio o'r UE, a fydd yn rhan o'r gyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael ac wedi hynny.

Diolch am y cyfle i gyfrannu at ymchwiliad y Pwyllgor. Gweler yr ymateb sydd ynghlwm i'r materion a godwyd yn eich llythyr.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AC/AM**
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**Ymchwiliad i Hawliau Dynol yng Nghymru**

**Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru**

## Rhagarweiniad

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymchwiliad hwn i hawliau dynol yng Nghymru Rydym yn dal yn benderfynol o hybu a gwarchod hawliau dynol pawb yng Nghymru. Mae hawliau dynol yn rhan hanfodol o'n deddfwriaeth sefydlu ac mae'n gwbl briodol eu bod yn dal i ddylanwadu ar ein gweithredoedd a'n penderfyniadau.

Rydym hefyd yn croesawu'r penderfyniad i gyfyngu ar ffocws yr ymchwiliad i effaith Brexit gan fod hyn yn golygu y gall y Pwyllgor ystyried mater sydd o bwys i ymarferwyr hawliau dynol a'r cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru a thrwy'r DU.

Oherwydd bod ceisiadau'r Pwyllgor yn gorgyffwrdd â'i gilydd, rhoddir sylw i faterion 1 a 2 ar yr un pryd ac yn yr un modd i faterion 3 a 4.

**1. Unrhyw ddadansoddiad sydd ar gael am lefelau presennol y cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd sydd ar hyn o bryd yn ariannu prosiectau sy'n berthnasol i hawliau dynol yng Nghymru;**

**2. Gwybodaeth am y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn i ystyried ffynonellau cyllid amgen ar gyfer y prosiectau hyn.**

1. Ar hyn o bryd, bydd Cymru'n cael £370 miliwn y flwyddyn gan yr Undeb Ewropeaidd i'w fuddsoddi yn Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020. Mae hyn yn cynnwys y Cronfeydd Strwythurol (ERDF ac ESF), y Rhaglen Datblygu Gwledig (EAFRD) a'r Gronfa ar gyfer y Môr a Physgodfeydd (EMFF).

2. Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd (EO a GM) yw un o'r tair thema drawsbynciol sydd wedi'u cynnwys yn rhan o Raglenni 2014-2020. Cydraddoldeb yw un o egwyddorion sylfaenol hawliau dynol. Mae'r Rheoliadau Cyffredinol sy'n llywodraethu Rhaglenni Ewrop yn dweud ei bod yn rhaid i'r holl weithrediadau a noddir drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredinol, gynnwys Erthygl 7 - Hybu cydraddoldeb rhwng dynion a menywod a pheidio â gwahaniaethu. Mae'r Rheoliad yn dweud bod cydraddoldeb rhwng dynion a menywod a chynnwys persbectif ar rywedd yn rhywbeth y mae'n rhaid ei ystyried a'i hybu drwy gydol gwaith paratoi a gweithredu rhaglenni, gan gynnwys wrth fonitro, adrodd a gwerthuso.

3. Mae'r Rheoliad hefyd yn galw am gymryd camau priodol i atal unrhyw wahaniaethu ar sail rhyw, hil neu darddiad ethnig, crefydd neu gred, anabledd, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol wrth baratoi a gweithredu rhaglenni. Yn benodol, rhaid ystyried hygyrchedd i bobl anabl yn ystod pob cam o waith paratoi a gweithredu rhaglenni.

4. Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) wedi cael dylanwad cadarnhaol sylweddol wrth gefnogi rhai grwpiau penodol sydd â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru ac mae rhaglenni ESF 2014-2020 yn adeiladu ar lwyddiant y rownd gyllido flaenorol. Mae'r rhaglenni yng Nghymru wedi'u datblygu ar sail tri phrif faes sy'n flaenoriaeth.

5. Trechu tlodi drwy'r flaenoriaeth Cyflogaeth Gynaliadwy yw'r brif ffordd y gall yr ESF ddylanwadu yn y maes hwn, gan ganolbwyntio ar helpu'r rheini sy'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith, a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio neu anableddau sy'n eu rhwystro rhag cael gafael ar swydd gynaliadwy neu ddychwelyd i waith o'r fath.

6. Mae a wnelo'r flaenoriaeth Sgiliau ar gyfer Twf â gwella lefel sgiliau, gan gynnwys sgiliau perthnasol i waith y rheini sydd yn y gweithlu, cefnogi gweithgareddau ymchwil ac arloesi ymhlith graddedigion a gwella safle menywod yn y farchnad lafur.

7. Nod y flaenoriaeth Cyrhaeddiad/Diweithdra Pobl Ifanc yw lleihau nifer y bobl ifanc y mae perygl iddynt ddod yn bobl na fyddant mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant, gwella lefelau cyrhaeddiad mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg, a gwella sgiliau gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn y gorllewin a'r cymoedd. Mae'r flaenoriaeth yn canolbwyntio ar helpu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg gwaith na hyfforddiant ac sy'n perthyn i grwpiau targed penodol, gan gynnwys unig rieni, pobl ifanc ag anableddau a chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio a'r rheini sy'n wynebu allgau cymdeithasol neu ddigidol.

8. Yn ogystal â hyn, mae Rhaglen Weithredol y Gorllewin a'r Cymoedd yn cynnwys amcan penodol, sef lleihau cyfraddau tangyflogaeth neu absenoldeb ymhlith unigolion sy'n wynebu rhwystrau rhag cael gwaith cynaliadwy. Galla hyn gynnwys anableddau neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Mae'r rhain yn cynnwys camau cadarnhaol gyda chyflogwyr i'w hannog i ddarparu'n rhesymol ar eu cyfer yn y gweithle.

9. Mae herio diffyg cydraddoldeb rhwng y rhywiau, wrth ddatblygu sgiliau ac wrth fynd i'r afael â'r ffaith nad yw merched wedi'u cynrychioli'n deg mewn sectorau allweddol, yn fater o bwys i Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yng Nghymru. Wrth ystyried yr effaith ar rywedd yn ystod pob cam ac ar bob lefel ymyrryd, hyd

yn oed pan fydd y materion hynny i bob golwg yn niwtral o ran rhywedd, mae modd manteisio ar gyfleoedd i'r eithaf.

10. Mae hybu cydraddoldeb rhwng y ddau ryw hefyd yn rhywbeth y canolbwyntir arno drwy gyfrwng ffrwd gyllido benodol yn rhaglen yr ESF ar gyfer y Gorllewin a'r Cymoedd a'r Dwyrain hefyd. Cefnogir prosiect Cenedl Hyblyg 2 drwy'r cyllid hwn. Ei nod yw hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau a helpu pobl i gamu ymlaen yn eu gyrfa drwy roi cymorth wedi'i dargedu i fenywod sy'n gweithio a thrwy weithio gyda chyflogwyr i wella'u Strategaethau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gan gynnwys cynlluniau gweithio hyblyg.

11. Mae'n ofynnol i bob prosiect sy'n ceisio cymorth yr ESF sefydlu targedau ar lefel weithredol, o fewn y categorïau a ganlyn, fan leiaf.
    - Menywod
    - Oedran (dros 54 ac eithrio Blaenoriaeth 3 Cyrhaeddiad Pobl Ifanc)
    - Cyfrifoldebau gofalu/ gofalu am blant
    - Anabledd
    - Cyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar Allu i Weithio
    - Mudwyr o'r UE (gan gynnwys ROMA), Mudwyr o'r tu allan i'r UE

12. Disgwylir i brosiectau a ariennir bennu'n glir gamau penodol i fynd i'r afael ag anghenion y grwpiau targed a bydd y canlyniadau'n cael eu monitro yn ystod adolygiadau rheolaidd a pharhaus a thrwy hawliadau chwarterol. Os na fydd prosiect unigol yn cyrraedd ei dargedau penodol, yna caiff yr awdurdod rheoli, WEFO, ddal neu dynnu yn ôl ran o'r cyllid, neu'r cyllid i gyd os bydd angen.

13. Hyd yn hyn, (hyd at 31 Rhagfyr 2017), mae rhaglenni'r ESF wedi cymeradwy 47 o brosiectau yn ardal y Gorllewin a'r Cymoedd gan fuddsoddi cyfanswm o dros £851 miliwn (£543 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop)  Mae tri deg a phedwar o brosiectau wedi'u cymeradwyo yn y dwyrain gan fuddsoddi cyfanswm o dros £351 miliwn (£107 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop).

14. Ochr yn ochr â'r cymorth drwy raglenni'r ESF, mae rhaglenni gweithredol yr ERDF yn cefnogi'r agenda drwy brosiectau cyfalaf sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd neu'n rhagori ar ei gofynion, prosiectau trafnidiaeth sy'n help i sicrhau mynediad yn enwedig i'r rheini sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus a phrosiectau sy'n hwyluso cyfathrebu e.e. Band Eang.

15. Ar ôl canlyniad Refferendwm yr UE, ceisiodd Llywodraeth Cymru gael sicrwydd pendant gan Lywodraeth y DU na fydd Cymru'n colli ceiniog o'r cyllid y mae'n gael ar hyn o bryd gan yr Undeb Ewropeaidd.

16. Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur polisi 'Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit'[1] sy'n nodi'r cam cyntaf wrth gynllunio ymagwedd newydd at bolisi buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru.

17. Mae'r papur yn cyflwyno'r ddadl o blaid parhau â'r cyllid ar ôl Brexit, sy'n adlewyrchu'r angen cymharol ac sy'n hanfodol er mwyn buddsoddi mewn blaenoriaethau sy'n cryfhau pobl a lleoedd ledled Cymru. Mae rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd yn gadael gwaddol cadarnhaol a gwerthfawr yng Nghymru, a byddai methu â darparu cyllid i wneud iawn yn llwyr amdano'n andwyol ac ystyried yr ymyriadau sydd ar waith ar hyn o bryd i fynd i'r afael ag anghenion economaidd a chymdeithasol parhaus, yn enwedig i'r rheini sy'n byw yn ein hardaloedd lle mae'r amddifadedd mwyaf.

18. Mae'r pwyslais cryf sydd wedi bod ar y themâu trawsbynciol yn rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol, wedi helpu i sicrhau'r cyfleoedd gorau, i sicrhau bod deddfwriaeth bresennol a pholisïau Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni'n llawn ac wedi helpu i sicrhau arferion da ar draws ystod amrywiol o weithgareddau.

**3. Diweddariad am drafodaethau â Llywodraeth y DU, yn enwedig gyda golwg ar hawliau dynol a chydraddoldeb; a**

**4. Gwybodaeth am unrhyw drafodaethau rydych wedi'u cael â'r Undeb Ewropeaidd am warchod hawliau dynol yn ystod Brexit ac wedyn.**

19. Mae Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd yn rhan bwysig o'r fframweithiau gwarchod cyfreithiol sy'n berthnasol yn y DU. Mae'n amddiffyn hawliau sylfaenol megis yr hawl i gydraddoldeb, diogelu data personol, a gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud na chaiff y Siarter Hawliau Sylfaenol ei chynnwys yng nghyfraith ddomestig y DU fel rhan o Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ac fe ddarperir ar gyfer hyn yng nghymal 5(4) y Bil.[2]

20. Yn Diogelu Dyfodol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017, gwnaeth Llywodraeth Cymru hi'n glir: "Wrth ymadael â'r UE, rhaid inni fod ar ein gwyliadwriaeth a mynnu na ddylid erydu'r safonau a'r mesurau diogelu sydd mor fanteisiol i'n dinasyddion ac i les cymdeithas yn gyfan".

21. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir na ddylai ymadael â'r Undeb Ewropeaidd arwain mewn unrhyw fodd at lastwreiddio'r trefniadau i ddiogelu hawliau dynol. Ein safbwynt cyson yw y dylai Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) gadw Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd yn rhan o'r

[1] Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit - Rhagfyr 2017
[2] Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) - Tudalen 3 (Saesneg yn unig)

corff o gyfraith sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd a fydd yn ffurfio rhan o'r gyfraith ddomestig ar ôl y diwrnod ymadael.

22. Ar 26 Hydref 2017 wrth iddo ymddangos gerbron Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ymrwymodd Steve Baker AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, i gyhoeddi memorandwm manwl yn dweud sut yn union y bydd pob un o erthyglau'r Siarter Hawliau Sylfaenol yn cael eu hadlewyrchu yng nghyfraith bresennol y DU, neu yng nghyfraith y DU ar ôl i'r pasio'r Bil.

23. Cyhoeddwyd y papur "Dadansoddi Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd, fesul hawl" (Saesneg yn unig) gan Lywodraeth y DU ar 5 Rhagfyr 2017. Mae'r papur yn cynnig dadansoddiad gan Lywodraeth y DU o effaith y ffordd yr ymdrinnir â hawliau sylfaenol ym Mil yr Undeb Ewropeaid (Ymadael).

24. Gellir crynhoi safbwynt Llywodraeth y DU fel a ganlyn:

- Mae Llywodraeth y DU wedi dewis peidio â chynnwys y Siarter mewn cyfraith ddomestig oherwydd nad yw'r Siarter yn creu dim hawliau, mathau o ryddid nac egwyddorion newydd ond ei bod yn hytrach yn catalogio'r hawliau a'r egwyddorion sydd eisoes wedi'u gwarchod o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd.

- Mae Llywodraeth y DU yn nodi nad yw'r Siarter ond yn berthnasol ar hyn o bryd i Aelod Wladwriaethau pan fyddant yn gweithredu o fewn cwmpas cyfraith yr Undeb Ewropeaidd.

- Dadl Llywodraeth y DU yw na fydd cael gwared ar y Siarter yn effeithio ar yr hawliau sydd gan unigolion eisoes oherwydd nad y Siarter yw ffynhonnell yr hawliau hyn.

25. Mae'r ddogfen yn dweud bod Llywodraeth y DU yn barod i edrych eto ar rai o'r manylion technegol ynglŷn â sut mae'r Bil yn ymdrin ag egwyddorion cyffredinol cyfraith yr Undeb Ewropeaidd - ac fe gawn ar ddeall y byddai hynny'n cynnwys amddiffyn hawliau sylfaenol. Byddwn yn craffu'n ofalus ar unrhyw gynigion cysylltiedig a ddaw gan Lywodraeth y DU.[3]

26. Mae'r ddogfen Dadansoddi Fesul Hawl yn awgrymu y bydd Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn hanfodol o ran sicrhau gwarchodaeth barhaus o dan hawliau'r Siarter ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Serch hynny, er 2015, mae aelodau Llywodraeth y DU wedi trafod

[3] Dadansoddiad o Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd, Fesul Hawl (Saesneg yn unig) – Rhagfyr 2017- Tudalen 5

y bwriad o ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998, a rhanddirymu'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.[4]

27. Ar 18 Mai 2016, adeg agoriad swyddogol y Senedd, cyhoeddodd y Frenhines y byddai Llywodraeth y DU yn cyflwyno cynigion ar gyfer Bil Hawliau i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol. Roedd hyn yn dilyn cyhoeddiad tebyg gan y Frenhines yn ystod agoriad swyddogol y Senedd yn 2015

28. Er 2015, nid yw Llywodraeth y DU wedi gallu cynnig dim gwybodaeth gadarn am ba newidiadau a gyflwynid drwy Fil Hawliau. Mae'r diffyg cyfathrebu hwn yn creu ansicrwydd yn ystod cyfnod sydd eisoes yn ddigynsail i'r DU. Mae rhai'n poeni y gallai'r diwygio arfaethedig arwain at wanhau rhai hawliau neu achosi llithro yn ôl, fel y mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau hwn yn ei adlewyrchu.

29. Mae cynlluniau Llywodraeth y DU i ddiwygio hawliau dynol wedi'u hatal ar hyn o bryd. Roedd maniffesto'r Ceidwadwyr yn Etholiad Cyffredinol 2017, Ymlaen Gyda'n Gilydd, yn dweud: *'Ni fyddwn yn diddymu nac yn disodli'r Ddeddf Hawliau Dynol tra bydd proses Brexit yn mynd rhagddi ond byddwn yn ystyried ein fframwaith cyfreithiol ar gyfer hawliau dynol pan fydd y broses o adael yr UE wedi dod i ben. Byddwn yn parhau i fod yn un o lofnodion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ystod y tymor seneddol nesaf'*.[5]

30. Nid yw'r datganiad hwn yn cynnig dim gwarant ynghylch dyfodol tymor hir Deddf Hawliau Dynol 1998 nac ynghylch i ba raddau y bydd y DU yn ymwneud â Chonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol. Os na chaiff y Siarter ei chynnwys mewn cyfraith ddomestig, gallai Llywodraeth y DU ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998 neu newid y ffordd y mae'r DU yn ymwneud â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ar ôl iddi ymadael o'r Undeb Ewropeaidd, gan arwain at golli rhai o'r hawliau sydd wedi'u gwarchod o dan y Siarter ar hyn o bryd, i'r graddau bod yr hawliau hynny wedi'u gwarchod hefyd gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

31. Mae'r Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi cyfarfod â chynrychiolwyr Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd a'r Senedd. Yn ystod eu hymweliadau maent wedi trafod Papur Gwyn y Llywodraeth sy'n egluro ein safbwynt ar nifer o faterion, gan gynnwys pwysigrwydd parhau i warchod hawliau dynol.

[4] Theresa May: Gallai cyfreithiau hawliau dynol newid er mwyn brwydro yn erbyn terfysgaeth: Newyddion y BBC - 7 Mehefin 2017
[5] Ymlaen Gyda'n Gilydd, Maniffesto'r Plaid y Ceidwadwyr Cymreig - 2017- Tudalen 37

32. Mae Llywodraeth Cymru yn aelod o Gydbwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) (JMC(EN)) sy'n trafod gofynion pob llywodraeth (y DU, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) gyda golwg ar y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal ers mis Tachwedd 2016, ac fe gynhaliwyd y chweched a'r diweddaraf ar 12 Rhagfyr 2017. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid Ddatganiad Ysgrifenedig am y cyfarfod hwn ar wefan Llywodraeth Cymru.[6]

33. Ar ôl cyfarfod y JMC (EN) 12 Rhagfyr 2017, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at Lywodraeth y DU i bwyso arni i ystyried sut y gellid cynnwys egwyddorion Rheoliad Dulyn III [7] yng nghyfraith y DU ar ôl iddi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae Rheoliad Dulyn III yn cynnig llwybr cyfreithiol i blant sy'n ceisio lloches sydd wedi dianc i un o Aelod Wladwriaethau Ewrop er mwyn ailymuno â'u teuluoedd yn y DU. Mae'r mecanwaith hwn yn un hanfodol bwysig i ddiogelu plant rhag smyglwyr a masnachwyr pobl drwy gynnig llwybr diogel iddynt.

[6] Datganiad Ysgrifenedig JMC (EN) Llywodraeth Cymru - 13 Rhagfyr 2017
[7] Rheoliad EUR Lex Dublin III (Saesneg yn unig)